# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Marleyfield House**

**Marleyfield House**
**Nant Mawr Road**
**Bwcle**
**CH7 2BL**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

05/02/2025

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2025.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Marleyfield House

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br><br>Gofal Heb Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Gwasanaethau Oedolion a Phlant Cyngor Sir y Fflint |
| Lleoedd cofrestredig | 64 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 3 Chwefror 2023 |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

## Crynodeb

Mae’r bobl yn hapus yn byw yng nghartref Marleyfield House. Maent yn gwerthfawrogi'r dewisiadau sydd ganddynt dros eu trefn o ddydd i ddydd, eu bwyd, yr adloniant, a chymryd rhan yn y nifer o weithgareddau sydd wedi'u trefnu. Maent hefyd yn canmol y staff am eu caredigrwydd a'u parodrwydd i fynd i'r tu hwnt i'r disgwyl ac maent yn eu hystyried fel agos at fod yn deulu. Mae'r cynlluniau gofal yn canolbwyntio ar yr hyn y mae'r bobl am ei gyflawni yn y cartref ac yn rhoi gwybodaeth fanwl am bwy ydyn nhw a'r hyn sy'n bwysig iddynt, felly mae'r staff yn eu hadnabod yn dda. Mae rhan hŷn a gwreiddiol y cartref yn gyfforddus iawn, ac yn cynnig sawl lolfa gartrefol ac ardaloedd cymunedol eraill i eistedd ynddynt. Mae rhan fwy newydd y cartref yn fawr fel y gall y bobl sy'n defnyddio cyfarpar symudedd symud yn haws. Mae lolfeydd ac ardaloedd bwyta mawr fel y gall y bobl gymdeithasu a chymryd rhan mewn gweithgareddau gyda phobl eraill yn y cartref. Mae'r gwasanaeth wedi'i reoli'n dda gyda dau reolwr cynorthwyol i gefnogi'r rheolwr, a thîm o staff gofal profiadol sydd wedi'i hyfforddi, ac mae llawer ohonynt wedi gweithio yn y cartref ers sawl blwyddyn. Mae'r Unigolyn Cyfrifol ar gyfer y cartref yn ymweld â'r gwasanaeth er mwyn sicrhau ei fod yn rhedeg yn ddidrafferth a bod y bobl yn hapus gyda'r gofal a ddarperir. Mae'n gwybod beth sy'n gweithio'n dda a lle y gellid gwneud gwelliannau.

## Llesiant

Mae gan y bobl reolaeth dros eu bywyd o ddydd i ddydd. Maent yn dewis yr hyn y maent am ei fwyta a pha weithgareddau maent am eu gwneud, maent yn dewis eu trefn o ddydd i ddydd fel codi a mynd i'r gwely; maent yn dewis ble i eistedd ac â phwy maent am sgwrsio. Maent yn gwybod beth sydd ar gael iddynt, a gallant leisio eu barn am eu hamgylchedd. Caiff y bobl eu trin yn y ffordd sydd orau ganddynt, a gydag urddas a pharch. Mae'r staff yn cyfeirio atynt gan ddefnyddio eu henw dewisol. Mae'r bobl yn teimlo bod y staff yn gwrando arnynt ac yn gwybod y gallant gyfrannu at benderfyniadau sy'n effeithio arnynt.

Mae llawer o weithgareddau i gadw'r bobl yn hapus ac yn iach. Caiff pwysau ac iechyd eu monitro ac anogir ffitrwydd drwy ymarfer corff, symudedd wedi'i oruchwylio a deietau iach. Mae'r bobl yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt gan weithwyr iechyd proffesiynol sy'n ymweld â'r cartref a chânt eu cefnogi i fynychu eu hapwyntiadau.

Mae'r staff wedi cael hyfforddiant ar ddiogelu fel bod y bobl wedi'u diogelu rhag camdriniaeth ac esgeulustod gymaint â phosibl. Caiff y staff eu harwain gan bolisïau a gweithdrefnau ac maent yn gwybod beth y dylid cadw llygad arno a sut i roi gwybod am unrhyw bryderon. Dywedodd y bobl sy'n byw yn y cartref wrthym eu bod yn gyflym i godi unrhyw bryderon os bydd rhai ganddynt. Maent yn gwybod sut i godi eu pryderon.

Mae'r bobl yn cael cymorth i ddysgu pethau newydd fel defnyddio eu dyfeisiau symudol a'u setiau teledu clyfar. Mae'r rheolwr yn annog y staff i roi o'u hamser i'w haddysgu. Mae'r trefnydd gweithgareddau yn trefnu sesiynau celf a chrefft a sesiynau diddorol eraill fel y gall y bobl ddefnyddio eu sgiliau a dysgu rhai newydd.

Mae llawer o'r gweithgareddau yn cynnwys pobl o'r gymuned leol yn dod i mewn i'r cartref i ganu neu ddiddanu mewn ffyrdd eraill. Mae plant ysgol yn ymweld â'r cartref ac mae ganddynt amser i sgwrsio â'r bobl sy'n byw yno, gan gynnig cyfle i rannu profiadau. Mae'r bobl yn mwynhau'r ymweliadau hyn a'r cyfleoedd cymdeithasol sydd ganddynt.

Mae'r cartref wedi'i deilwra at anghenion y bobl sy'n byw yma ac yn eu galluogi i gyflawni eu canlyniadau. Mae'r ystafelloedd yn rhan wreiddiol yr adeilad yn gartrefol a gwneir ymdrechion i addurno ystafelloedd gwely fel y byddai'r bobl yn eu cael gartref. Ceir ystafelloedd cymunedol i ddewis ohonynt lle y gall y bobl gymdeithasu â'i gilydd. Mae'r rhan fwyaf o'r ardaloedd yn hygyrch felly gall y bobl fod yn rhydd i grwydro ble bynnag y dymunant.

## Gofal a Chymorth

Dim ond ar ôl asesiad llawn o'u hanghenion y mae'r bobl yn dod i mewn i'r cartref. Mae'r cofnodion yn dangos bod amrywiaeth o wybodaeth wedi'i chasglu gan yr unigolyn ac eraill sy'n ei adnabod yn dda. Mae'r cynlluniau personol yn gynhwysfawr iawn ac yn rhoi darlun clir o'r unigolyn dan sylw, ei hanes, a'i gefndir, a'r hyn sy'n bwysig iddo. Caiff llesiant a chynnydd y bobl eu hadolygu'n fisol gan weithwyr allweddol ac eto yn chwarterol gan y rheolwr. Mae'r cynlluniau yn canolbwyntio ar yr unigolyn a'r canlyniadau felly mae'n glir i'r staff gofal sut mae'r unigolyn am gael gofal.

Mae'r bobl yn cael y gofal a'r cymorth sydd eu hangen arnynt ac sydd orau ganddynt gan fod y gwasanaeth wedi cael ei gynllunio drwy ymgynghori â nhw ac unigolyn eraill sy'n eu hadnabod yn dda. Maent yn canmol y gofal a roddir gan ddweud eu bod yn cael eu trin yn dda iawn a chaiff eu hanghenion gofal eu diwallu yn unol â'u dewisiadau. Mae un cynllun yn nodi canlyniad o gymdeithasu er mwyn osgoi teimlo'n ynysig, ac mae'r staff wedi cael cyfarwyddiadau i annog yr unigolyn i dreulio amser yn yr ardaloedd cymunedol. Gwelsom yr unigolyn hwn yn gwneud ei ffordd ei hun i'r neuadd ganolog lle'r oedd ffrindiau yn sgwrsio ar y soffas cyfforddus. Mae cynllun unigolyn arall yn nodi ei fod yn mwynhau gwydraid o win, a dywedodd wrthym ei fod yn cael gwydraid gyda'r nos. Mae'r trefnydd gweithgareddau yn gweithio pum diwrnod yr wythnos ac roedd pawb yn cytuno bod gweithgareddau ac adloniant rhagorol yn cael eu trefnu. Roedd cofnodion cyfarfod preswylwyr a gynhaliwyd ym mis Ionawr yn canmol y gweithgareddau a ddarparwyd dros gyfnod y Nadolig. Dywedodd un unigolyn, *‘It was the best Christmas I had’*, a chytunodd arall gan ddweud *‘it was fantastic’*. Dywedodd y trefnydd gweithgareddau wrthym am ddigwyddiadau sydd i ddod fel ‘bws ffordd House of Memories’, a llawer o weithgareddau eraill sy'n cynnwys y bobl yn y gymuned leol. Mae'r cartref wedi cael cynnig i ffilmio a rhannu eu henghreifftiau o weithgareddau â gwasanaethau eraill.

Mae'r bobl yn cael cymorth da i ddefnyddio gwasanaethau gofal iechyd a gwasanaethau eraill pan fydd eu hangen arnynt. Mae nyrsys ardal a gweithwyr iechyd proffesiynol eraill yn ymweld â'r cartref. Roedd ciropodydd a thriniwr gwallt yn gweithio yn y cartref yn ystod ein hymweliad. Mae'r cofnodion yn dangos bod ymweliadau meddyg teulu yn cael eu trefnu pan fo angen a chaiff adolygiadau o feddyginiaeth eu cynnal er mwyn sicrhau bod y bobl yn cael y feddyginiaeth gywir wrth i'w hanghenion a'u risgiau newid. Mae un unigolyn wedi cael adolygiad o'i feddyginiaeth yn dilyn achos o gwympo a chafodd hyn ei newid. Caiff y bobl eu cefnogi i fynd i apwyntiadau ysbyty.

Mae'r feddyginiaeth wedi'i rheoli'n dda er mwyn sicrhau bod yr arferion yn ddiogel. Mae archwiliad wythnosol yn sicrhau bod y cofnodion yn cael eu cadw'n gywir a chaiff meddyginiaethau eu storio'n ddiogel. Aethpwyd i'r afael â phob argymell o arolygiad diweddar gan y fferyllfa er mwyn gwella'r agwedd hon ar ofal ymhellach ac mae pob aelod o'r staff sy'n ymdrin â meddyginiaethau wedi'u hyfforddi i wneud hynny.

## Yr Amgylchedd

Mae'r bobl yn cael eu gofal mewn cartref sy'n cynnwys cyfarpar da er mwyn eu helpu i gyflawni eu canlyniadau. Gall y bobl sydd am gymdeithasu wneud hynny mewn un o'r nifer o ystafelloedd cymunedol sydd ar gael. Gwelsom y bobl yn cwrdd ac yn sgwrsio yn y salon trin gwallt, y cyntedd ac hefyd yn yr ystafelloedd byw. Mae ystafell fwyta fawr yn hwyluso'r rhai sy'n well ganddynt fwyta gyda phobl eraill ac mae ystafell fawr yn cynnig digon o le i weithgareddau fel tenis eistedd a chelf a chrefft yn ogystal ag ymwelwyr o'r gymuned sy'n dod i ddiddanu. Mae'r coridorau yn fawr, gan alluogi'r bobl i symud yn rhydd gyda'u cyfarpar symudedd. Mae'r baddonau wedi'u dylunio i fod yn ddiogel ac yn gyfforddus i bobl â phroblemau symudedd ac mae ystafelloedd gwlyb cwbl hygyrch ar gael i'r rhai sy'n dewis cael cawod. Mae'r ystafelloedd gwely wedi'u personoli â lluniau'r bobl eu hunain a phethau eraill sydd o bwys iddynt, ac mae rhai wedi'u haddurno'n ddiweddar yn unol â chwaeth y preswylydd. Mae'r cartref wedi'i leoli lle gall y bobl fwynhau cyswllt parhaus â ffrindiau a theulu yn y gymuned leol ac mae pobl leol yn dod i ffeiriau dathlu.

Caiff y risgiau i iechyd a diogelwch eu lliniaru drwy amrywiaeth o wiriadau a mesurau. Roedd y tystysgrifau diogelwch i'w gweld yn gyfredol ar gyfer profi cyfarpar trydanol, y system canfod tân a larymau a chyfarpar tân arall, yr adroddiad cyflwr gosodiadau trydanol, a diogelwch nwy. Caiff asesiad manwl o reoliadau'r gweithle ei gwblhau gan y rheolwr bob blwyddyn a chaiff archwiliadau amgylcheddol wythnosol eu cwblhau ar gyfer y tu allan i'r adeilad a dan do. Caiff archwiliadau rheoli heintiau hefyd eu cwblhau er mwyn sicrhau arferion, ac mae'r amgylchedd yn ddiogel. Mae cynlluniau personol ar gyfer gwagio'r adeilad mewn argyfwng ac asesiadau risg i gyd yn helpu i sicrhau diogelwch y bobl.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae gan ddarparwr y gwasanaeth systemau ar waith er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth yn rhedeg yn ddidrafferth. Mae rheolwr wedi'i gyflogi sydd wedi'i gefnogi gan ddau reolwr cynorthwyol a thîm o uwch-ofalwyr. Mae tîm o staff gofal sefydlog, ac mae llawer ohonynt wedi gweithio yn y gwasanaeth ers cryn amser, ac aelodau eraill o staff sy'n gyfrifol am dasgau gweinyddu, coginio, gweithgareddau, glanhau, a chynnal a chadw. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn rhoi cymorth i'r rheolwr ac yn cwrdd yn rheolaidd i gael diweddariadau ar sut mae'r gwasanaeth yn rhedeg. Mae'r rheolwr yn trefnu cyfarfodydd gyda'r staff bob dau fis i rannu gwybodaeth a cheisio safbwyntiau ar yr hyn sy'n gweithio'n dda a'r hyn sydd angen ei newid.

Mae gan y gwasanaeth drefniadau da ar waith i fonitro ansawdd y gwasanaeth. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn ymweld â'r gwasanaeth bob tri mis i sicrhau ei fod yn rhedeg yn dda, bod pob ardal o'r gwasanaeth yn cydymffurfio â'r rheoliadau a bod y bobl a'r staff yn hapus yma. Mae'n cadw cofnod o'i ymweliad a'i ganfyddiadau. Mae'r gwasanaeth yn dosbarthu holiaduron i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth a'u perthnasau er mwyn cael eu safbwyntiau ar sut mae'r gwasanaeth yn rhedeg. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn dadansoddi canfyddiadau'r rhain ac unrhyw wiriadau eraill sydd wedi'u cwblhau ac yn llunio adroddiad bob chwe mis sy'n nodi'r hyn sy'n mynd yn dda a'r hyn y gellid ei wella. Gwelsom amserlen o archwiliadau yn cael ei chwblhau'n rheolaidd er mwyn sicrhau bod arferion a gweithdrefnau yn cael eu cyflawni'n effeithiol ac yn gywir.

Caiff y bobl eu cefnogi gan staff sydd wedi cael eu fetio'n drylwyr er mwyn sicrhau bod y broses o recriwtio staff yn ddiogel, ac maent wedi cael yr hyfforddiant angenrheidiol er mwyn cyflawni eu rolau. Yn rhan hŷn y cartref, dywedodd y bobl wrthym fod y staff yn ymateb yn brydlon pan fydd angen arnynt. Yn rhan fwy newydd y cartref, lle mae gan y bobl lai o symudedd ac anghenion mwy, a dywedodd dau unigolyn wrthym fod y staff gofal yn araf i ymateb weithiau. Dywedodd y staff wrthym fod mwy o bobl yn ddiweddar sydd angen cymorth dau aelod o'r staff arnynt am eu gofal. Dywedodd y dirprwy reolwr ei bod yn monitro hyn a bydd yn rhoi adborth i'r rheolwr er mwyn adolygu'r sefyllfa o bosib. Mae'r staff yn cael cyfnod sefydlu ar ôl cael eu cyflogi ac mae'r cofnodion yn dangos eu bod yn cael yr holl hyfforddiant angenrheidiol er mwyn cyflawni eu rolau. Gwnaethom siarad ag aelodau o'r staff sydd i gyd yn cadarnhau eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u cefnogi'n dda. Caiff y staff sesiynau goruchwylio un i un yn rheolaidd lle y gallant siarad yn agored am eu harferion gwaith a chael adborth ar eu perfformiad eu hunain. Maent yn teimlo y gwrandewir arnynt ac mae ganddynt barch mawr i'r tîm rheoli.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni hyn, a byddwn yn ystyried y mater hwn eto yn ystod yr arolygiad nesaf.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

## A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 22/04/2025